Ysbyty Gwynedd

# Adran Achosion Brys

Newyddlen Mawrth 2018

**Yn dod â'ch diweddariad misol ar y gwaith gwella yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**




## Yn y rhifyn hwn:

**Y claf a'r criw ambiwlans cyntaf trwy fynedfa newydd ein Hadran Achosion Brys!**

**Cwrdd ag Eirian Pritchard, derbynnydd Adran Achosion Brys**

**Cam 2 yn mynd rhagddo**

**Adroddiad Rheolwr Safle**

# Ein hymwelwyr cyntaf trwy fynedfa newydd ein Hadran Achosion Brys!

Fe agorodd y fynedfa newydd i'n Hadran Achosion Brys ei drysau ar ddechrau mis Mawrth. Y claf cyntaf trwy'r drysau oedd Morgan Hughes, o Fangor, a ddaeth i'r Adran Achosion Brys gydag amheuaeth o dor asgwrn, a'r criw cyntaf o Wasanaeth Ambiwlans Cymru i ddefnyddio'r bae ambiwlans newydd oedd y criw o Gaernarfon.




Dros y mis diwethaf mae cleifion wedi cael ystafell aros fwy gyda chyfleusterau. Mae yna'n awr dderbynfa newydd cyfeillgar, tair ystafell brysbennu a bae a mynedfa newydd ar gyfer ambiwlans.







## *Drosodd i chi...*


Rydym bob amser yn falch o gael adborth am Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a'n gwasanaethau. Dyma enghraifft o rai o'r pethau y mae unigolion wedi dweud wrthym.

"Mae'r staff yn yr Adran Achosion Brys yn wych - yn broffesiynol a chyfeillgar iawn."

"Llwyddodd ein plentyn pum mlwydd oed i ollwng cadair bren drom iawn ar ei fawd troed. Fe drodd yn ddu ac fe chwyddodd yn gyflym felly aethom ag ef i Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd. Roedd y staff yn wych, ac er eu bod yn brysur iawn fe wnaethant amser i sicrhau bod ein mab yn cael profiad cadarnhaol ar ei ymweliad cyntaf i'r Adran Achosion Brys. Mae'n dal i siarad am y peiriannau yn yr ystafell pelydr-x. Diolch yn fawr iawn.�"

# Cwrdd ag Eirian Pritchard, derbynnydd Adran Achosion Brys

Mae Eirian, sydd wedi gweithio yn yr Adran Achosion Brys am dros 20 mlynedd, yn falch iawn o fod wedi symud i'r dderbynfa newydd.
Dywedodd: "Mae'n wych gallu symud i'n lle gwaith newydd - mae llawer mwy o le ac mae gennym olygfa lawn o'r man aros.
"Rydym rŵan yn cael mwy o gyswllt gyda'r criwiau ambiwlans, yr ydym yn awr yn gallu eu gweld yn cyrraedd y tu allan, doedd hyn ddim yn bosib o'r blaen.
"Mae'r tîm yn falch iawn bod y fynedfa a'r man aros newydd wedi'i gwblhau, mae gennym rŵan fwy o le, sy'n wych.
"Mae'r adran Achosion Brys yn lle gwych i weithio, nid oes unrhyw ddiwrnod yr un fath, ac mae cymaint o amrywiaeth yn fy rôl, felly mae'n dda gweld y gwelliannau'n digwydd.



# Adroddiad Iwan Lewis, Rheolwr y Safle

Interserve
Ingenuity at work

Mae cam 2 y datblygiad yn awr yn mynd rhagddo  a bydd yn canolbwyntio ar ailwampio adran Paediatreg, adeiladu'r Uned Penderfyniadau Clinigol a'r Adran Weinyddol

"Rŵan bod cam 1 wedi'i gwblhau, rydym wedi dechrau ar Gam 2 o'r gwelliannau.
"Rydym wedi tynnu'r adran Paediatreg ac mae'r gwaith dur ar gyfer yr estyniad ar hyn o bryd yn cael ei godi. Unwaith bydd hyn wedi'i gwblhau byddwn yn arllwys slab y llawr gwaelod, llawr cyntaf ac yn adeiladu'r to."



